CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

472/53

**HANES – HI2**

**UNED 2**

**ASTUDIAETH O GYFNOD 3**

# AGWEDDAU AR HANES CYMRU A LLOEGR, tua 1815-1914

P.M. DYDD MERCHER, 7 Mehefin 2006

(45 munud)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **un** cwestiwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn.

Mae'n bosibl fod y dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

**Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.**

## UNED 2

## ASTUDIAETH O GYFNOD 3

## AGWEDDAU AR HANES CYMRU A LLOEGR, tua 1815-1914

*Atebwch* **un** *cwestiwn.*

*Yn eu hymateb i'r cwestiwn dehongli, dylai ymgeiswyr ystyried dilysrwydd y dehongliad gan ddefnyddio'u gwybodaeth o'r cyfnod a dehongliadau posibl eraill. Dylai ymgeiswyr hefyd ystyried ffactorau a allai fod wedi dylanwadu ar y ffordd y ffurfiwyd y dehongliad – megis y math o hanesydd/awdur, y dystiolaeth oedd ar gael i'r hanesydd/awdur a'r dyddiad cyhoeddi.*

**1. Ceidwadaeth Disraeli, 1846-1880**

'Dim ond gwleidydd a oedd yn heneiddio ac mewn brys enbyd i ddod yn Brif Weinidog gyda mwyafrif seneddol oedd Disraeli.'

[Geoffery Alderman, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes gwleidyddol Prydain fodern, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr hanes, *Modern Britain 1700-1983* (1986)]

Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o yrfa a chyflawniadau gwleidyddol Disraeli yn y cyfnod 1846-1880? [80]

**2. Rhyddfrydiaeth Gladstone, 1868-1893**

'Nodwedd bwysicaf Rhyddfrydiaeth Gladstone oedd yr ymdrech i sefydlu cydraddoldeb cyfle ym Mhrydain.'

[B. H. Abbott, hanesydd cyffredinol, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr hanes ar gyfer myfyrwyr, *Gladstone and Disraeli* (1978)]

Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o yrfa Gladstone yn y cyfnod 1868-1893? [80]

**3. Mudiadau protest a thwf radicaliaeth yng Nghymru, 1815-1868**

'Gellir edrych ar hanes Cymru yn y cyfnod hwn fel dim mwy na gwrthryfel tanllyd.'

[Wynford Vaughan Thomas, newyddiadurwr a darlledwr teledu, yn ysgrifennu mewn llyfr hanes cyffredinol am Gymru a materion Cymreig, *Wales – A History* (1985)]

Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o brotest boblogaidd yng Nghymru, 1815-1868? [80]